Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** | |
| | **Lleoliad:** | **Neuadd Interpol, Prifysgol Aberystwyth** | |
| | **Dyddiad:** | **27 Gorffennaf 2017** | |
| | **Amser:** | **10:00 – 13:00** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DPG)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro, SCHTh (SR)<br>Ms Emma Northcote, Cyfathrebu Corfforaethol (EN)<br>Swyddog Staff Anthony Evans (AE)<br>Swyddog Staff Siân Davies (SD)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DPG/DD)<br>Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly (PGC/DD)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19/04/2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 046** | **SCHTh i gydlynu ag Adran Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu o ran datblygu adroddiad perfformiad misol.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 047** | **Adroddiad ar ddarpariaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i'w gyflwyno i'r CHTh cyn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (bob tri mis)** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 048** | **Dylid ystyried recordio cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Dylid cynnal y cyfarfodydd ym mhob Uned Reoli Sylfaenol yn eu tro.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 049** | **Datblygu rhaglen gwaith y dyfodol ar gyfer Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ochr yn ochr â'r Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 050** | **SCHTh i gydlynu ag Uned Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu i adolygu'r adroddiad perfformiad i'w ystyried gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 051** | **Yr Heddlu i rannu'r gwersi am yr euogfarn ddiweddar am reolaeth gymhellol gyda phartneriaid ar ôl i'r achos ddod i ben.** | **Parhaus** |
| **PAB 052** | **Bod y Pennaeth Staff yn dod yn aelod o Fwrdd Calon.** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 053** | **Trafod canolfan asesu recriwtio cyfrwng Cymraeg yn y cyfarfod cydweithio rhanbarthol.** | **Parhaus** |
| **PAB 054** | **CHTh i dderbyn cynllun gweithlu tymor canol yr Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 055** | **Adroddiad Strategol Adnoddau Dynol i'w gyflwyno i'r CHTh, gan gynnwys effaith penderfyniadau ar y praesept.** | **Parhaus** |
| **PAB 056** | **KP i fynychu cyfarfodydd perfformiad rhanbarthol i roi mewnbwn am Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd, a defnyddio Prif Arolygwyr y Bartneriaeth yn brif bwynt cyswllt.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 057** | **KP i fynychu cyfarfod y PG â Chomanderiaid Uned Reoli Sylfaenol i roi mewnbwn am Swyddfa Gwasanaethu'r Cyhoedd.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 058** | **Digwyddiad gwellhad cyson ar Gredydwyr.** | **Cwblhawyd** |

| CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 27/07/2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | |
| **PAB T2 010** | **Penderfynwyd cefnogi'r achos busnes ar gyfer Rhwydwaith Ardal Eang.** | |

## 1 Croeso ac ymddiheuriadau

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â chynnal Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (BAH) mewn lleoliadau cyhoeddus amrywiol yn y dyfodol. Cydnabu'r Bwrdd y lleoliad hyfryd yn Neuadd Interpol, Aberystwyth. Dywedodd y Bwrdd fod eu meddyliau gyda theulu a ffrindiau'r dyn ifanc sydd ar goll o'r Sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt.

## 2 Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 19 Ebrill a Materion yn Codi

PAB 046: Mynegodd y Comisiynydd ei ddiolch i'r heddlu am gynhyrchu adroddiad misol cynhwysfawr am berfformiad yr heddlu. Cadarnhaodd y DBG bod cyfarfodydd perfformiad URS yn cael eu cynnal ac y byddai'r cyfarfod Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau cyntaf yn cael ei gynnal ar 4 Medi – cwblhawyd.

PAB 047: Dywedodd y CHTh nad oedd wedi bod mewn sefyllfa i fynychu'r ddau gyfarfod Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, ond roedd wedi derbyn yr holl bapurau. Mynegwyd pryder â'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â gallu cenedlaethol Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu – Cwblhawyd.

PAB 048: Dywedodd y PS ei bod hi wedi mynychu cyfarfod Cymdeithas Genedlaethol Prif Weithredwyr yr Heddlu a Throseddu lle codwyd y mater o recordio cyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus. Awgrymwyd y gallai'r cyfarfodydd hyn ddylanwadu ar gyfranogiad cyhoeddus ac anghymell sgwrs agored ac onest. Gan hynny, penderfynwyd peidio â recordio cyfarfodydd cyhoeddus. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â sicrhau fod dogfennau BAH yn cael eu marcio'n briodol - Cwblhawyd.

PAB 051: Roedd yr achos rheolaeth drwy orfodaeth cyntaf wedi ei ohirio tan ddiwedd Gorffennaf 2017. Cadarnhaodd y PG fod ail achos o reolaeth drwy orfodaeth wedi ei roi mewn grym.

**Cam Gweithredu: Adolygu achosion rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin domestig yng nghyfarfod nesaf BAH.**

PAB 053: Roedd y PG a'r DBG wedi ymweld â chanolfan asesu Cymraeg yng Ngogledd Cymru ac roeddent yn edrych ar ddilyn y syniad yn Nyfed-Powys. Dywedodd y CHTh bod gweithgareddau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cydlynu drwy'r Coleg Cymraeg a gall fod cyfleoedd ar gyfer ariannu. Symudodd y drafodaeth ymlaen at recriwtio a gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd gan swyddogion y sgiliau ieithyddol sydd angen ar gyfer yr ardal heddlu. Hefyd, holodd y CHTh pa un ai a oedd recriwtiaid yn derbyn cyflwyniad ar amrywiaeth ieithyddol yn Nyfed-Powys. Holodd y PS pa un ai a fyddai modd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu roi cyflwyniad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn ystod yr wythnos ymgynefino ar gyfer recriwtiaid newydd.

**Cam Gweithredu: Rhoi dyddiadau derbyn trosglwyddedigion i SCHTh ar gyfer ei ystyriaeth mewn perthynas â chyflwyniad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn y digwyddiad ymgynefino.**

Cafwyd trafodaeth am Weledigaeth Plismona 2025. Dywedodd y DBG fod Bob Evans yn gweithio i gwblhau Gweledigaeth Plismona Cymru Gyfan a'i bod hi'n bwysig i HDP sefydlu ei weledigaeth ei hun hefyd.

**3 – Adroddiad perfformiad yr Heddlu – Chwarter 1**

Tynnodd y PG sylw'r CHTh at ATCLI[1], y data hyder cyhoeddus sy'n dangos bod 73.1% o'r cyhoedd yn credu bod HDP yn gwneud gwaith da/ardderchog. Holodd y CHTh sut y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyfathrebu i'r cyhoedd. Cytunwyd y byddai'r CHTh yn rhyddhau datganiad i'r wasg sy'n datgan ei gefnogaeth barhaus i'r cyhoedd. Byddai'r PG hefyd yn rhoi sylw i'w gynnwys yn y datganiad i'r wasg.

**Cam Gweithredu: SCHTh i ryddhau datganiad i'r wasg sy'n datgan ymrwymiad parhaus CHTh tuag at leihau trosedd.**

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at ostyngiad o ran lefelau bodlonrwydd defnyddwyr mewn perthynas â chamau gweithredu dilynol gan yr heddlu. Dywedodd y PG ei fod yn disgwyl y byddai bodlonrwydd defnyddwyr yn gwella yn dilyn sefydlu'r Tîm Pennu Troseddau a

[1] Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr

Digwyddiadau (TPTD). Dywedodd y DBG fod galw'n tyfu yn yr ardal hon oherwydd nifer y troseddau a gofnodir, ac o ganlyniad, nifer y dioddefwyr.

Ceisiodd y CHTh sicrwydd gan y PG fod achosion cwynion a bennir ar gyfer datrysiad lleol sy′n hŷn na 361 diwrnod yn cael eu trin, Dywedodd y DBG bod nifer yr achosion sy'n aros yn lleihau. Symudodd y drafodaeth ymlaen at gynnydd amlwg yn nifer y troseddau a gofnodir ers Mai 2017. Dywedodd y DBG bod y cynnydd yn ganlyniad sefydlu TPTD a gwelliant o ran cofnodi troseddau. Dywedodd y DBG bod heddluoedd eraill wedi gweithredu TPTD ac wedi profi cynnydd o ran troseddau cofnodedig o 15%-25%.

Ymddengys fod newidiadau o ran cofnodi troseddau wedi effeithio ar ffigurau byrgleriaethau. Gofynnodd y CHTh am gael manylion pellach mewn perthynas â throseddau bwrglera a chanlyniadau yng nghyfarfod nesaf BAH.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi crynodeb manwl o'r lefel canlyniadau ar gyfer troseddau bwrglera yng nghyfarfod nesaf BAH.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at drafodaeth cyffuriau. Gofynnodd y CHTh am grynodeb pellach o'r math o drosedd mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol er mwyn iddo fonitro cynnydd tuag at Flaenoriaeth 3 o'i gynllun mewn perthynas â masnachu cyffuriau. Mewn perthynas â throseddau Meddu ar Arfau, er y cydnabu bod ffigurau'n isel, gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd unrhyw dueddiadau mewn perthynas â'r math o arfau a ddefnyddir a nifer y bobl sy'n cario arfau.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu manylion pellach mewn perthynas â throseddau cyffuriau a throseddau meddu ar arfau mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.**

Ceisiodd y CHTh sicrwydd o ran y cynnydd o ran troseddau rhywiol a gofnodir. Er ei fod yn cydnabod bod cynnydd o ran cofnodi'n gadarnhaol, ceisiodd y CHTh sicrwydd bod y cynnydd yn ganlyniad gwell cofnodi troseddau ac nad oedd yr esboniad hwn yn cuddio gwir gynnydd yn nifer y troseddau rhywiol. Dywedodd y PG fod yr Heddlu'n gweithio ar nifer o achosion hanesyddol, ac yn ei farn ef, mae'n bosibl nad yw cofnodi troseddau hanesyddol wedi cyrraedd uchafbwynt eto. Pwysleisiodd y DBG fod yr Heddlu'n cefnogi'r ymagwedd 'byth rhy hwyr' tuag at adrodd achosion hanesyddol. Dywedodd y PG mai mesur allweddol o ran troseddu rhywiol ddylai fod y canlyniad.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi crynodeb o droseddau rhywiol hanesyddol yn erbyn rhai cyfredol.**

Dywedodd y PG y bu cynnydd yn nifer yr achosion o drais ar y stryd, er y gallai hyn ymwneud yn rhannol â chategorïau trosedd newydd megis bygythiadau a wneir drwy gyfathrebu electronig. Dywedodd y CHTh bod trais yn erbyn y person yn cyfrif am dreian o'r holl droseddau a gofnodir yn HDP. Trafododd y Bwrdd pa un ai a oedd y newidiadau o ran y prosesau ar gyfer cofnodi troseddau'n gyfrifol am y canran uwch o achosion sy'n derbyn canlyniad 'nid yw'r dioddefydd yn cefnogi gweithredu'. Dywedodd y PG y dylai ffilm sy'n cael ei recordio ar gamerâu fideo a wisgir ar y corff effeithio ar ganlyniad y troseddau hyn.

Rhannodd y PG fanylion cryno ar 'Ymgyrch Snap', sef ymgyrch sy'n cael ei rhedeg gan Heddlu Gogledd Cymru i helpu i leihau perygl ar y ffyrdd. Mae'r Heddlu wedi datblygu proses i ganiatáu i'r cyhoedd gyflwyno tystiolaeth ffotograffig a fideo mewn perthynas â throseddau gyrru yn yr heddlu. Er nad yw Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithredu proses o'r fath, byddai'r Heddlu'n cyfathrebu'r defnydd o ffilm sy'n cael ei recordio ar gamerâu fideo a wisgir ar y corff er mwyn hwyluso erlyniadau ledled Dyfed-Powys.

Dywedodd y PG bod set data yn cael ei roi i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn ei swyddi blaenorol a oedd yn cynnwys nifer o dreialon aneffeithiol/craciog a lle'r oedd yr Heddlu yn genedlaethol o ran data ac ati. Awgrymodd y CHTh y gellir creu pecyn tebyg ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol HDP.

Cafwyd trafodaethau mewn perthynas â digwyddiadau casineb, iechyd meddwl a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. Nododd y CHTh gynnydd o ran digwyddiadau casineb ym Mehefin 2016 yn ystod y cyfnod ar ôl y refferendwm, a chynnydd tebyg yn dilyn y troseddau terfysgol ym Manceinion a Llundain. Dywedodd EN nad oedd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n ymwneud â throseddau terfysgol. Yn hytrach, teimladau gwrth-Seisnig, troseddau casineb ar sail anabledd neu droseddau casineb homoffobig oeddent, yn ogystal ag anghydfodau cymdogol.

Mewn ymateb i sylw gan y CHTh ar alw yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, cadarnhaodd y PG fod lefelau staffio wedi'u hadolygu ac na ddisgwylir gostyngiad o ran gwasanaeth yn ystod cyfnodau prysur.

**Cam Gweithredu: Adolygu trin galwadau yng nghyfarfod BAH ym mis Tachwedd 2017.**

Cododd y CHTh bwynt olaf ar yr Adroddiad Perfformiad mewn perthynas â'r amserau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau. Roedd y CHTh yn poeni bod yr amserau ymateb yn Llanbedr Pont Steffan a Maesyfed yn edrych fel pe baent yn gwaethygu a'i bod hi'n bwysig sicrhau nad oedd y gwasanaeth a ddarperir i'r cymunedau hyn yn lleihau. Sicrhaodd y PG y CHTh bod camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn dwyn amserau ymateb yn Llanbedr Pont Steffan a Maesyfed yn unol â gweddill yr ardal heddlu.

**4 – Perfformiad ariannol yn ystod chwarter 1**

Mynegodd y CHTh bryder am y tanwariant yn erbyn y gyllideb Plismona Bro. Dywedodd y CC bod y gostyngiad o ran gwario'n ymwneud â gostyngiad ym mhris tanwydd, yn hytrach na gostyngiad o ran staff Plismona Bro.

Trafododd y Bwrdd yr incwm o'r gwasanaeth tywys i'r fferm wynt ym Mrechfa, gyda'r CHTh yn cwestiynu sut y gellid defnyddio'r incwm. Dywedodd y CC nad oedd unrhyw gyfyngiadau o ran sut y gellid defnyddio'r arian. Dywedodd y CHTh y byddai materion ariannol yn cael eu trafod yn y Seminar Cyllid ar 8 Awst 2017. Mynegodd y CHTh bryder mewn perthynas â'r gwariant ar staff dros dro. Dywedodd y CC bod nifer y ceisiadau ar gyfer Trwyddedau Arfau

Saethu wedi arwain at ôl-groniad o achosion yr oedd angen eu trin gyda staff ychwanegol dros dro. Hefyd, dywedodd fod materion tebyg o ran Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Gofynnodd y CHTh sut oedd yr Heddlu'n cynllunio ar gyfer galw posibl yn y dyfodol er mwyn osgoi talu am staff dros dro. Dywedodd y CC bod HDP wedi dychwelyd i ddefnyddio Swyddogion Ymholiadau Arfau Saethu yn hytrach na defnyddio SCHTh fel staff trwyddedu arfau saethu dros dro. Dywedodd y DBG y byddai digwyddiad gwelliant parhaus yn cael ei gynnal ar Drwyddedu Arfau Saethu ym mis Medi 2017 a fyddai'n edrych ar nifer o'r materion hyn. Dywedodd y CHTh bod Trwyddedu Arfau Saethu'n ymddangos fel pe bai'n profi materion parhaus sy'n aml yn cyrraedd y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus gydag aelodau o'r cyhoedd yn anfodlon â'r gwasanaeth.

Dywedodd y CHTh bod diffyg adnoddau mewn un maes yn golygu y gallai staff deimlo dan bwysau, gan arwain at lefelau absenoldeb yn cynyddu oherwydd problemau iechyd meddwl a straen.

Nododd y CHTh ei bod hi'n dda gweld nad oedd y gyllideb wrth gefn wedi ei defnyddio'n ormodol er mwyn cynnal y gyllideb refeniw.

**5 – Diweddariad ar Gynllun Trosglwyddo'r Cynllun Heddlu a Throseddu.**

Cadarnhaodd y DBG bod Prif Swyddogion wedi cael cyfle i drafod yr adroddiadau canlyniadau â'u hawduron a bod gradd ar gyfer pob un wedi'u cytuno ar y cyd.

**a) Bodlonrwydd Dioddefwyr**

Beirniadwyd ei fod yn dda/angen gwella. Pwyntiau allweddol a drafodwyd:

- Trefnwyd digwyddiad Gwella Parhaus ar gyfer Medi 2017 er mwyn gwella rhai agweddau o Fodlonrwydd Dioddefwyr. Byddai Cam-drin Domestig yn faes ffocws ar gyfer Bodlonrwydd Dioddefwyr yn ystod y misoedd i ddod.
- Dywedodd y CHTh ei bod hi'n ymddangos fel pe bai diffyg ymwybyddiaeth ymysg staff ynglŷn â swyddogaeth Goleudy, er bod Goleudy wedi ei hyrwyddo drwy bodlediad a osodwyd ar faner y fewnrwyd. Cadarnhaodd EN bod Cyfathrebu Corfforaethol yn ymgysylltu â Goleudy er mwyn codi ymwybyddiaeth ledled yr heddlu.
- Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr yn ymweld â'r heddlu ym mis Medi. Cadarnhaodd y CHTh y byddai'r Fforwm Dioddefwyr yn cael ei lansio i gyd-fynd ag ymweliad y Farwnes Newlove ym mis Medi.

**b) Hyder Cyhoeddus**

Beirniadwyd ei fod yn dda. Pwyntiau allweddol:

- Roedd Twitter yn cael ei ddefnyddio fel dull cyfathrebu mewnol.
- Mae llawer o ymgysylltiad â'r cyhoedd yn digwydd trwy Facebook. Cyflwynodd EN y cynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol mewn perthynas â Facebook ar gyfer yr Heddlu a SCHTh.
- Diweddarodd EN y Bwrdd ar waith sy'n cael ei gynnal yn Rhydaman er mwyn datblygu ymgysylltiad â'r gymuned.

Adroddodd EN oedi o ran y lansiad oherwydd problemau capasiti gan arwain at oedi o ran cyhoeddi peth o'r cynnwys Cymraeg a chyfieithu cynnwys arall. Cytunwyd bod y wefan yn flaenoriaeth ac y gofynnir i TGaCh gyflwyno'r wefan newydd yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: TGaCh i gyflwyno'r wefan newydd yng nghyfarfod nesaf BAH.**

- Awgrymodd SR y dylid defnyddio Instagram i ymgysylltu â phobl ifainc. Teimlwyd bod adnoddau cyfredol yn mynnu y dylid defnyddio Facebook yn bennaf ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

**c) Iechyd a Lles Sefydliadol**

Beirniadwyd bod angen gwella. Pwyntiau allweddol:

- Roedd y DBG wedi gofyn am ddata tueddiadau ar gyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol o 2016.
- Ar hyn o bryd, roedd lefelau salwch yn uwch na'r targed o 4%. Holodd y CHTh faint oedd yr Heddlu wedi buddsoddi yn y Rhaglen Arweinyddiaeth Sylfaen. Nid oedd y PG yn medru rhoi ffigwr ar hyn o bryd.
- Cadarnhaodd y DBG mai'r dyddiad cwblhau ar gyfer gwaith iTrent oedd 31 Mawrth 2018.

**ch) AHEM**

Beirniadwyd ei fod yn dda/angen gwella. Pwyntiau allweddol:

Byddai AHEM yn canolbwyntio ar ddau o'r chwe maes posibl yn archwiliad yr Hydref.

**d) Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu**

Beirniadwyd ei fod yn dda. Pwyntiau allweddol:

- Dywedodd y DBG fod mecanweithiau adrodd perfformiad bellach mewn grym yn yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP).
- Roedd yr ôl-groniad o ran fetio'n dechrau clirio, ac roedd 28% o'r cynllun gweithlu wedi'u fetio.

Yr adroddiad hwn i gynnwys data ASP yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Cynnwys data ASP mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.**

**6 – Diweddariad ar feysydd ffocws y Bwrdd Plismona yn ystod chwarter 1.**

a) Iechyd a Diogelwch – byddai hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol yn cael ei ddarparu'n fewnol gan hyfforddwr a fydd yn cael ei benodi.
b) Iechyd Meddwl – roedd camau gweithredu'n mynd rhagddynt.
c) Ystadau

Dywedodd y CHTh bod angen achos busnes cadarn arno i gyfiawnhau gwario £10 miliwn o arian cyhoeddus. Dywedodd y PG bod y gwaith wedi ei gwblhau, ond nad oedd achos busnes wedi ei baratoi eto. Cytunwyd y byddai achos busnes yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona yn ystod ail wythnos Medi 2017.

**7 – Adborth ar weithgarwch craffu**

Nododd y CHTh bod 4 o'r 8 achos o ymosod ar swyddogion heddlu a adolygwyd gan y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys yn cael eu hystyried yn amhriodol. Cytunwyd y byddai'r adroddiadau craffu'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Dysgu'r Gwersi yn y dyfodol.

**8 - Llywodraethu**

Dywedodd y DBG bod y strwythur Llywodraethu wedi ei orffen a bod y portffolios Prif Swyddogion a Chyfarwyddwr Cynorthwyol wedi'u cytuno.

**9 – Crynodeb Risg a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod**

Penderfynwyd dosbarthu'r camau gweithredu a'r grynodeb risg ar ôl y cyfarfod.

**10 – Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Adroddiad y Grŵp Prif Swyddogion ar y Rhwydwaith Ardal Eang (RhAE)**

Holodd y CHTh pa un ai a fyddai'r diweddariad RhAE yn effeithio ar y prosiect teledu cylch cyfyng (TCC). Cadarnhaodd y CC y byddai gan y diweddariad RhAE effaith gadarnhaol ar y prosiect RhAE. Gan hynny, cytunwyd i gefnogi'r achos busnes ar gyfer diweddariad RhAE.

**Penderfyniad: Penderfynwyd cefnogi'r achos busnes ar gyfer Rhwydwaith Ardal Eang.**

Caeodd y CHTh y cyfarfod drwy gyhoeddi y byddai Sharon Richards SCHTh yn gadael SCHTh ar gyfer swydd arall. Diolchodd y CHTh a'r DBG am waith SR gan ddweud y byddai colled ar ei hôl.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/07/2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w wneud gan: |
| **PAB 059** | **Cam Gweithredu: Adolygu achosion rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin domestig yng nghyfarfod nesaf BAH.** | **PG a'r CHTh** |
| **PAB 060** | **Cam Gweithredu: Rhoi dyddiadau derbyn trosglwyddedigion i SCHTh ar gyfer ei ystyriaeth mewn perthynas â chyflwyniad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn y digwyddiad ymgynefino.** | **AE** |
| **PAB 061** | **Cam Gweithredu: SCHTh i ryddhau datganiad i'r wasg sy'n datgan ymrwymiad parhaus CHTh tuag at leihau trosedd.** | **EN** |
| **PAB 062** | **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi crynodeb manwl o'r lefel canlyniadau ar gyfer troseddau bwrglera yng** | **EN** |

| | | |
|---|---|---|
| | **nghyfarfod nesaf BAH.** | |
| **PAB 063** | **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu manylion pellach mewn perthynas â throseddau cyffuriau a throseddau meddu ar arfau mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.** | **AE** |
| **PAB 064** | **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi crynodeb o droseddau rhywiol hanesyddol yn erbyn rhai cyfredol.** | **AE** |
| **PAB 065** | **Cam Gweithredu: Adolygu trin galwadau yng nghyfarfod BAH ym mis Tachwedd 2017.** | **PG a'r CHTh** |
| **PAB 066** | **Cam Gweithredu: TGaCh i gyflwyno'r wefan newydd yng nghyfarfod nesaf BAH.** | **AE** |
| **PAB 067** | **Cam Gweithredu: Cynnwys data ASP mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.** | **KP** |

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

3 Tachwedd 2017

Lleoliad: Coleg Sir Benfro